Heddlu • Police

DYFED POWYS



# Cyngor Atal Trosedd ar gyfer Olew Gwresogi

**Fel y gwyddoch, mae pris disel ac olew domestig wedi codi'n aruthrol dros y misoedd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn lladrad disyr awgrymiadau canlynol, gallwch helpu i ddiogelu eich hun rhag lladron tanwydd.**

- Cadwch lygad rheolaidd ar lefel yr olew yn eich tanc.
- Os oes modd, cedwch lefel y tanwydd yn isel a pheidiwch â llanw'r tanc yn llawn.
- Siaradwch â'ch cyflenwr ynglŷn â derbyn cyflenwadau bach ac aml.
- Os oes gennych danc plastig, ystyriwch godi ffens o'i amgylch gan gy nwys drws sy'n cloi ar un ochr at bwrpas derbyn olew. Rhowch y ffens y sownd wrth byst solet gan adael tua 12 modfedd rhwng y ffens a'r tanc a dylid dodi to arno hefyd.
- Os oes gennych danc metel, dodwch glo clap a bollten gyplu gaeedig arno.
- Os oes gennych oleuadau diogelwch allanol, gofalwch eu bod yn gweithio a bod y synhwyrydd yn anelu i'r cyfeiriad iawn.

**Os ydych yn gwybod am unrhyw un sy'n mynd allan gyda drymiau a phibellau er mwyn dwyn tanwydd, cysylltwch â'ch Gorsaf Heddlu leol ar 101 neu ffoniwch Crimestoppers ar 0800 555 111.**